# Integreiddio a defnyddio gwerthoedd a phroses datblygu cymunedol

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rôl yr ymarferydd datblygu cymunedol yn dehongli, defnyddio ac esbonio proses a gwerthoedd datblygu cymunedol.

Mae'n golygu gweithio gydag eraill i ddangos beth sy'n unigryw am natur datblygu cymunedol ac annog pobl, grwpiau ac asiantaethau i gydnabod cyfraniad datblygu cymunedol ym mhroses newid.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob ymarferydd datblygu cymunedol.

Trefnir y safonau datblygu cymunedol yn chwe maes allweddol:
•Un - deall ac ymarfer datblygu cymunedol
•Dau - deall cymunedau ac ymgysylltu â nhw
•Tri - gwaith grŵp a gweithredu ar y cyd
•Pedwar - cydweithio a gweithio ar draws sectorau
•Pump - dysgu cymunedol er newid cymdeithasol
•Chwech - llywodraethu a datblygu sefydliadol

Mae'r safon hon yn rhan o Faes Allweddol Un

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1 cymhwyso gwerthoedd a phroses datblygu cymunedol i'ch rôl eich hun
2 hybu gwerthoedd datblygu cymunedol i unigolion, sefydliadau a chymunedau
3 cefnogi cymunedau i ddefnyddio gwerthoedd a phroses datblygu cymunedol
4 cefnogi cymunedau i herio polisïau a phenderfyniadau lleol a chenedlaethol sy'n cael effaith negyddol ar gymunedau lleol
5 hybu gweithredu cynhwysol a grymusol ar y cyd wrth benderfynu a gweithio ar y newidiadau a nodir gan gymunedau
6 cefnogi cymunedau i greu cysylltiadau rhwng ffactorau strwythurol a'u heffaith ar lesiant
7 hybu agweddau dysgu a datblygiadol ar weithio gyda chymunedau
8 caniatáu gwerthuso effaith ymarfer datblygu cymunedol ar gymunedau
9 cefnogi cymunedau ac eraill i ddeall sut mae polisïau ar wahanol lefelau yn effeithio ar gymunedau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

Gwerthoedd a phrosesau datblygu cymunedol
1 diben, gwerthoedd a phroses allweddol datblygu cymunedol
2 sut mae esbonio cysyniadau datblygu cymunedol mewn gwahanol gyd-destunau, i wahanol gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion
3 technegau seiliedig ar werth, sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, ar gyfer adfyfyrio a datrys problemau
4 dulliau o gynnwys a grymuso'r gymuned
5 dulliau ar gyfer gweithredu a newid a arweinir gan y gymuned
6 sut mae gweithio gyda gwrthdaro cymunedol (rhwng grwpiau a rhwng cymunedau)
7 sut mae gwerthuso effaith polisïau ar gymunedau

Cymunedau fel cysyniad
8 yr ystod o ddiffiniadau o'r cysyniad ‘cymuned’, sy'n adlewyrchu diddordeb, hunaniaeth a daearyddiaeth

Materion pŵer, anghydraddoldeb a chyfiawnder
9 persbectifau a ddefnyddir i esbonio ffactorau strwythurol a'r cysylltiadau rhyngddynt
10 sut mae ffactorau strwythurol yn effeithio ar gymunedau
11 ffyrdd o herio anghydraddoldeb, anghyfiawnder cymdeithasol a chamwahaniaethu
12 gwahanol bersbectifau ar sut mae pŵer yn gweithio
13 technegau ar gyfer adnabod a defnyddio pŵer
14 hawliau i osod eich agendâu eich hun a pharhau'n annibynnol
15 y cyfraniad y gall datblygu cymunedol ei wneud i bolisïau a mentrau cyfredol y llywodraeth leol a chenedlaethol

Gwneud penderfyniadau
16 sut mae'r broses o lunio polisi yn gweithio
17 sut mae defnyddio prosesau cyfranogol a democrataidd o wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu a newid cymunedol
18 sut mae cefnogi cymunedau i ymgysylltu'n weithredol ac yn feirniadol yn y broses o lunio polisi

## Gwerthoedd

Seiliwyd datblygu cymunedol ar gyfres o werthoedd sy'n ei osod ar wahân i weithgareddau eraill, a all fod yn gysylltiedig, yn y gymuned. Mae'r gwerthoedd hyn yn greiddiol i ddatblygu cymunedol, ac yn darparu sylfaen ar gyfer pob un o'r safonau. Y gwerthoedd yw;

1 Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb
2 Gwrthweithio camwahaniaethu
3 Grymuso cymunedol
4 Gweithredu ar y cyd
5 Gweithio a dysgu gyda'n gilydd

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut gallai pob un o'r gwerthoedd datblygu cymunedol lywio ymarfer yn y safon hon. Nid yw'r gosodiadau hyn yn rhan o'r gofynion asesu.

1 bod arfer datblygu cymunedol yn cyfrannu at gymdeithas fwy cyfartal lle mae hawliau sifil a dynol yn cael eu cydnabod a'u parchu
2 bod arferion sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau yn cael eu nodi a'u herio pryd bynnag a ble bynnag maen nhw'n codi
3 bod yr holl ymyriadau a gweithgareddau a gynlluniwyd oddi mewn i gymunedau yn ymdrin â'r materion a nodwyd gan aelodau o'r gymuned ac yn ceisio gwireddu eu dyheadau
4 bod gweithredu ar y cyd yn cael ei hyrwyddo'n weithredol fel ffyrdd effeithiol o gyflawni newid cymdeithasol cadarnhaol
5 bod adfyfyrio ar brofiadau'n rhan hanfodol o bob gweithgaredd ac yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol

JETSCD01

# Integreiddio a defnyddio gwerthoedd a phroses datblygu cymunedol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | NYA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Learning Skills Improvement Service |
| **RCU gwreiddiol** | LSICD01 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Cymunedol Gwirfoddol, Grwpiau Cymorth Cymunedol |
| **Cyfres/Set** | Datblygu Cymunedol |
| **Geiriau Allweddol** | datblygu cymunedol; ymarferydd datblygu cymunedol; ymarfer datblygu cymunedol; gwerthoedd datblygu cymunedol; ymchwil datblygu cymunedol; ymgynghori ar ddatblygu cymunedol; grwpiau datblygu cymunedol; dulliau datblygu cymunedol |